

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir)

Hydref 2021

## Cyflwyniad

1. Ar 22 Mehefin 2021, gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil gerbron y Senedd. Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) at Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r dyddiad cau a bennwyd ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 14 Hydref 2021. (PDF 41.6KB)

## Cefndir

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid a Gedwir) yn Nhŷ'r Cyffredin ar 8 Mehefin 2021. Mae teitl hir y Bil yn nodi mai ei ddiben yw gwneud darpariaeth ar gyfer lles anifeiliaid penodol a gedwir ym Mhrydain Fawr, a gaiff eu mewnfario, neu a gaiff eu hallfario oddi yma.

## Trosolwg o'r Bil

3. Yn ôl y Memorandwm, yr amcan polisi a nodwyd ar gyfer y Bil yw gwneud darpariaethau i wneud nifer o ddiwygiadau sy'n ymwneud â lles anifeiliaid a gedwir, gan gynnwys anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes ac anifeiliaid gwylt a gedwir. Mae pedair rhan i'r Bil: mae Rhan 1 yn ymwneud â phrimatiaid; mae Rhan 2 yn ymwneud â chŵn yn ymosod ar dda byw neu'n poeni da byw; mae Rhan 3 yn cynnwys darpariaethau eraill ynghylch anifeiliaid a gedwir. Mae hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud ag: allfario anifeiliaid byw, gan gynnwys eu lladd; pwerau i ddiwygio, neu ddirymu deddfwriaeth yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â lles anifeiliaid; cyfyngiadau ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol; pwerau sy'n ymwneud â mewnfario cŵn, cathod a ffuredau penodol; a swau. Mae Rhan 4 yn rhan Gyffredinol.



**4.** Mae Rhan 1 o'r Bil - Cymalau 1-25 - yn ymwneud â materion gan gynnwys cadw, gwerthu a bridio primatiaid, ac mae'n gymwys i Loegr yn unig, felly nid oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer unrhyw gymalau yn Rhan 1. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno mai dyna'r achos.

**5.** Mae'r Memorandwm yn nodi y gofynnir am gydsyniad ar gyfer nifer o Gymalau yn Rhannau 2, 3 a 4 o'r Bil. Mae mwy o fanylion am y darpariaethau wedi'u nodi yn y Memorandwm - ceir isod grynodeb o'r cymalau y gofynnir am gydsyniad ar eu cyfer.

## **Y darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

### **Rhan 2 - Cŵn yn ymosod ar dda byw neu'n poeni da byw**

---

**6.** Gofynnir am gydsyniad ar gyfer **Cymalau 26 - 41** o Ran 2. Mae'r Cymalau hyn yn cynnwys darpariaethau i berson fod yn euog o drosedd os yw ci o'u heiddo yn ymosod ar dda byw neu'n poeni da byw ar unrhyw dir amaethyddol neu ffordd, llwybr neu gyffiniau ger tir amaethyddol, ac eithrio mewn rhai achosion a nodir yn is-adrannau Cymal 26, megis lle mae da byw yn tresmasu ar dir perchennog ci, neu'n crwydro ar ffordd neu lwybr. Mae Cymal 27 yn ymwneud ag atafaelu a chadw cŵn mewn perthynas â'r drosedd, mae Cymal 28 yn ymwneud â chasglu samplau ac argraffiadau (tystiolaeth o drosedd). Mae Cymal 29 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer gwarantau sy'n awdurdodi trefniadau mynediad a chwilio.

**7.** Mae Cymal 30 yn darparu ar gyfer gwneud gorchmynion rheoli wrth euogfarnu o dan Gymal 26, ac mae Cymal 31 yn darparu ar gyfer gorchmyn dinistrio pan fo'r llys yn fodlon bod risg o drosedd bellach yn y dyfodol. Mae Cymal 32 yn darparu ar gyfer gwaharddiad wrth euogfarnu o dan adran 26 neu orchmyn torri rheolaeth, gan atal y troseddwr hynny rhag bod yn berchen ar gŵn a/neu eu cadw, ac mae Cymal 33 yn darparu ar gyfer atafaelu a gwaredu cŵn mewn perthynas â gorchmynion gwahardd. Mae Cymal 34 yn ymwneud â hawliau person i wneud cais am derfynu gorchmyn gwahardd. Mae Cymalau 35 a 36 yn gwneud darpariaeth bellach ar yr amodau sy'n ymwneud â gorchmynion dinistrio, apelio yn erbyn gorchmynion o'r fath a throseddau am beidio â chydymffurfio.

**8.** Mae Cymal 37 yn ymwneud â Chymhwyso i'r Goron - sut y mae Rhan 2 yn rhwymo'r Goron, ac mae Cymal 38 yn ymwneud â rheoliadau a wneir o dan y Bil. Mae Cymal 39 yn ymwneud â diffiniadau o "boeni da byw" ("*worrying livestock*"), cŵn yn bod "ar grwydr" ("*at large*"), "da byw perthnasol" ("*relevant livestock*") a gallu'r Ysgrifennydd Gwladol i ddiwygio'r diffiniad hwnnw. Mae Cymal 40 hefyd yn ymwneud â dehongli termau a ddefnyddir yn y Bil. Byddai Cymal 41 yn diddymu Deddf Cŵn (Diogelu Da Byw) 1953 yng Nghymru a Lloegr.

**9.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi **bod angen cydsyniad ar gyfer Cymalau 26-36, a Chymal 41**, oherwydd bod y Cymalau hyn i gyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â materion datganoledig i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru, yn enwedig o ran lles anifeiliaid ac amaethyddiaeth. Mae hyn oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio'r 'prawf diben' fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 29.1(i), h.y. a oes diben datganoledig i'r ddarpariaeth (diogelu da byw yn yr achos hwn).

**10.** Barn Llywodraeth y DU yw bod y Cymalau hyn yn ymwneud â chŵn peryglus (o dan y pennawd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Atodlen 7A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), sy'n faterion a gedwir yn ôl. Yn ôl tudalen 24 o'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil:

*"...the subject matter of the Bill is also devolved to Senedd Cymru except in relation to the provisions dealing with dogs acting dangerously which are reserved in accordance with Schedule 7A to the Government of Wales Act 2006".*

**11.** Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi **bod angen cydsyniad ar gyfer Cymalau 37-40** lle gwneir darpariaeth mewn perthynas â darpariaethau yn y Bil yr ystyrir eu bod wedi'u datganoli.

### **Rhan 3 - Darpariaethau eraill ynghylch anifeiliaid a gedwir**

---

#### **Allforio da byw**

**12.** Mae Cymal 42 yn darparu ar gyfer gwahardd allforio "da byw perthnasol" i'w lladd, a'r troseddau sy'n gysylltiedig â hynny. Mae cymal 43 yn ymwneud â gwneud rheoliadau ar gyfer gorfodi, a'r hyn y gall y rheoliadau hynny ei gwmpasu.

#### **Lles anifeiliaid a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir**

**13.** Mae cymal 44 yn diwygio adran 12 o Ddeddf 2006 (rheoliadau i hyrwyddo lles) i alluogi'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru i ddiwygio neu ddirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran honno.

#### **Mewnforio cŵn, cathod a ffuredau**

**14.** Mae Cymal 45 yn diwygio Rheoliad (yr UE) Rhif 576/2013 yng nghyfraith uniongyrchol yr UE a ddargedwir a rheoliadau cysylltiedig y DU i gyfyngu ar nifer y cŵn, cathod a ffuredau y gellir eu symud i Brydain Fawr ar sail anfasnachol. Mae'n lleihau'r nifer y gellir eu cludo mewn cerbyd modur i 5, ac yn cyfyngu ar nifer yr anifeiliaid anwes a gaiff ddod gyda pherson sy'n teithio mewn ffyrdd eraill o 5 i 3. Mae Cymal 46 yn darparu pwerau i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â gwahardd neu gyfyngu ar fewnforio anifeiliaid perthnasol sydd o dan oedran penodol, sydd wedi cael eu hanffurfio (e.e. ci â chynffon wedi'i docio neu glustiau wedi'u tocio)

neu sy'n feichiog iawn. Mae is-adrannau pellach yn darparu ar gyfer yr hyn y gellir ei gynnwys yn y rheoliadau, megis troseddau, cosbau, pwerau mynediad a chadw cofnodion.

**15.** O ran Cymal 46, mae Memorandwm Pwerau Dirprwyedig Llywodraeth y DU yn nodi fel a ganlyn (gweler paragraff 47, ar dudalen 11):

*"Using a power, rather than including provisions on the face of the Bill, will also enable the UK to meet its WTO obligations. The Department anticipates that some or all of the measures that are likely to be introduced under this power to address the kind of low-welfare imports currently entering Great Britain will amount to technical regulations for the purposes of the WTO Agreement on Technical Barriers to Trade. Where a WTO member is proposing to adopt technical regulations, which may have a significant effect on trade, it is obliged to consult other WTO members on the proposed technical regulations. The power will allow for appropriate consultation with other WTO members to take place before any such technical regulations are adopted. The power will also allow for the introduction of similar measures for cats and ferrets in the future if low-welfare trade in these species escalates or evidence of welfare concerns is produced by stakeholders and regulators."*

**16.** Nid yw'r Memorandwm yn ymdrin â'r mater hwn, i egluro a yw Llywodraeth Cymru o blaid y dull hwn ai peidio, neu i egluro a yw'n ceisio unrhyw newidiadau i'r Cymal.

## **Sŵau**

**17.** Mae Cymal 47 ac Atodlen 5 yn nodi diwygiadau i Ddeddf Trwyddedu Sŵau 1981, gan gynnwys rhai yn ymwneud â safonau sy'n gymwys mewn gwahanol fathau o sŵau, a phwy all gynnal archwiliadau a chosbau o dan y Ddeddf.

## **Cyffredinol**

**18.** Mae Cymal 48 yn diffinio 'awdurdod cenedlaethol priodol' ('*appropriate national authority*') a 'deddfiad' ('*enactment*') at ddibenion y Rhan honno. Mae Cymal 49 yn nodi sut y mae'n rhaid arfer y pŵer i wneud rheoliadau, h.y. o dan is-adran (2) rhaid gwneud hyn drwy offeryn statudol, ac mae is-adran (6) yn nodi na ellir gwneud yr offeryn statudol heb osod drafft gerbron y Senedd.

**19.** Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 42-49 ac Atodlen 5, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer materion datganoledig, sef lles anifeiliaid, a chydsyniad hefyd ar gyfer rhai o'r Cymalau (e.e. Cymalau 42 a 43) amaethyddiaeth. Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw Llywodraeth y DU wedi cynnwys Cymal 46 yn y tabl sydd wedi'i atodi i'r Nodiadau

Esboniadol ar gyfer y Bil, felly nid yw'n eglur a yw'n ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymal hwn.

**20.** Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU yn nodi bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymalau 42-45, cymalau 47-49, ac Atodlen 5. Ymddengys mai gwall argraffyddol yw hepgor cymal 46: Caiff Cymal 44 ei gynnwys ddwywaith yn y tabl.

### **Pwerau cydredol plws**

**21.** Mae'r Memorandwm yn nodi bod Cymal 48 yn nodi mai'r awdurdod cenedlaethol priodol ('*appropriate national authority*') i Gymru at ddibenion rheoliadau rhan 3 yw (1) Gweinidogion Cymru neu (2) yr Ysgrifennydd Gwladol yn gweithredu gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru. Yn ôl y Memorandwm: "*This creates concurrent functions and will, as drafted, impact upon the Senedd's powers to make legislation in this area in the future due to the fact that Minister of the Crown consent will be required to remove the Secretary of State's concurrent function. This situation has arisen in relation to other UK legislation. A carve out will be needed from the relevant restrictions in Schedule 7B of GoWA.*"

### **Rhan 4 – Cyffredinol**

---

**22.** Mae Cymal 50 yn darparu i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau sy'n codi o ganlyniad i ddarpariaethau yn y Bil - sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r newidiadau a wneir i ddeddfwriaeth sylfaenol neu brif ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir fod o dan y weithdrefn gadarnhaol, ac o dan weithdrefn negyddol mewn achosion eraill. Mae Cymal 51 yn ymdrin â chychwyn, Cymal 52 gyda'r hyd a lled a Chymal 53 gyda'r teitl byr. Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cytuno bod angen cydsyniad y Senedd ar gyfer Cymalau 50-53 o'r Bil.

### **Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y DU**

**23.** Dywed y Memorandwm fod lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a bod y Llywodraeth yn ystyried ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil y DU am resymau amseru a chydlyniant, sy'n hanfodol mewn perthynas â gorfodi trawsffiniol a mesurau rheoli ffiniau.

**24.** Mae Llywodraeth Cymru yn gyffredinol gefnogol i'r Bil fel y'i drafftwyd ac mae'n nodi materion pellach sydd eto i'w trafod. Mae'n dweud bod y darpariaethau'n cyd-fynd â'i amcanion polisi ar les anifeiliaid ac y bydd yn sicrhau aliniad agosach rhwng polisi a gweithredu, yn enwedig mewn perthynas â materion trawsffiniol sy'n ymwneud â gorfodi, gan fod y Bil yn gwneud yr un darpariaethau lles anifeiliaid i Gymru ag a wneir i Loegr a'r Alban, a hynny ar yr un pryd. Mae'n tynnu sylw at y fantais o fod â dull sy'n gyson â gweinyddiaethau eraill.

---

**25.** Mae'r Memorandwm yn nodi nad yw Rhan 1 sy'n ymwneud â phrimatiaid yn gymwys i Gymru ond ei bod yn fodlon i'r darpariaethau gael eu hymestyn ar y ddealltwriaeth bod Gweinidogion Cymru yn cael pwerau mewn perthynas â Chymru sy'n cyfateb i bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr.

**26.** Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn ofynnol i ddiwygiadau i Ran 2 a Rhan 4 o'r Bil adlewyrchu pwerau datganoledig.

## **Barn y Pwyllgor**

**27.** Ychydig o amser fu ar gael i'r Pwyllgor ystyried ac adrodd ar y Memorandwm - roedd toriad y Senedd yn para rhwng 19 Gorffennaf a 12 Medi, a dim ond dau gyfarfod a drefnwyd ar gyfer y Pwyllgor ers cyhoeddi'r Memorandwm. Felly ni fu'n bosibl edrych yn fanwl iawn ar y cynigion na threfnu i glywed tystiolaeth lafar gan randdeiliaid.

**28.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid yng Nghymru yn erbyn rhai agweddau ar y Bil. O ran Rhan 2 o'r Bil - poeni da byw - mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o bryderon a godwyd gan y gymuned ffermio ynghylch cynnydd mewn ymosodiadau gan gŵn ar anifeiliaid fferm a'r effaith ariannol ac emosiynol ar ffermwyr. Mae'r Pwyllgor yn nodi cefnogaeth i fesurau i gryfhau pwerau'r heddlu yn y Bil, a gyflwynwyd mewn Cynnig Rheol Deg Munud gan Aelod Seneddol Ynys Môn, Virginia Crosbie, ar 20 Gorffennaf 2021.

**29.** O ran Rhan 3 - allforio anifeiliaid byw - cafwyd safbwyntiau amrywiol gan undebau ffermio, bridwyr a grwpiau lles anifeiliaid mewn ymateb i ymchwiliad i 'symud anifeiliaid ar draws ffiniau' ym mis Mai/Mehefin gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yn Senedd y DU. Daeth yr ymchwiliad hwn yn dilyn yr ymgynghoriad ar y cyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a Llywodraeth Cymru ar wella lles anifeiliaid wrth gael eu cludo, a ddaeth i ben ym mis Chwefror 2021.

**30.** Mae'r Pwyllgor wedi nodi'r rhesymau a roddwyd gan Lywodraeth Cymru dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru mewn Bil y DU, gan gynnwys y manteision o gael dull cyson o ymdrin â mesurau lles anifeiliaid ar draws y gweinyddiaethau. Ni chanfu unrhyw reswm i wrthwynebu'r Senedd yn cytuno ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n gysylltiedig â'r Memorandwm.